Financial Contingency Fund: Guidance Notes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

What is the Financial Contingency Fund?

The Welsh Government provides the College with an amount of money, we have the discretion on how to spend this fund.

Who is eligible?

Those approved for EMA or WGLG will be eligible for support. Students must be studying at least 275 hours during the academic year. Students who have a change in circumstances, may also apply noting on the application form that this is due to hardship.

Scan here to apply

What support might I get?

Childcare

£41 each college day for one child only.

Food

£4.10 will be added onto your student ID card for each college day. Failure to bring your ID card will mean a student loses the entitlement for that day. Pontardawe and Swansea Construction Centre students will need to collect a weeks' worth of lunch tickets from Reception on a Monday, to use at local food outlets for the week, which are external to the College. If a student loses their vouchers, they are unable to claim additional vouchers.

Transport

Bus

For students studying at our Neath, Afan, Llandarcy, Swansea Construction Centre or Pontardawe campuses that live over three miles from College, you will be provided with a free bus pass. For students studying at our Brecon or Newtown campuses, and live over three miles but within Powys, you will be provided with a free bus pass if you are between 16-18. For students over 19, that live over **three** miles from Brecon or Newtown campus, we will refund up to £175 a term.

Train and Fuel Costs

A maximum of £175 per term for students who live over three miles from the campus they study at.

Course Equipment

Full reimbursement for equipment relevant to your course, this can include safety clothing, stationary or books.

Accommodation

Term time only, Monday-Friday for students who wish to study at a campus away from home and it is not reasonable to travel, daily. If a course is offered on a campus closer to the students home address, accommodation will be refused.

Disclosure and Barring Service Check

Full reimbursement for Disclosure and Barring Service checks for students over **25 years old** or for students who are required to undergo a check for their course.

Mandatory Course Trips

Full reimbursement of course trips, essential to your study.

Receipts must be sent to **studentsupport@nptcgroup.ac.uk** in the same academic year to be reimbursed. Receipts submitted outside of the academic year of study will not be considered.

Emergency Payments

Emergency payments may be made when a student is found to be in hardship, this must be assessed by the Student and Business Services Officer or the Assistant Manager: Student Finance and Operational Services.

Appeals

Appeals against refusal of this fund must be directed to **studentsupport@nptcgroup.ac.uk**: FAO Assistant Manager: Student Finance and Operational Services.

Terms and Conditions

- You are not deemed to have been awarded the fund, until you have been emailed your Award Letter to your student and personal email address. This includes free college meals.
- You will repay any amount sent to you as a result of inaccurate information supplied or if you leave the College early. You also understand that any attempt to obtain funds by deception will result in disciplinary action under the Student Code of Conduct and prosecution under the Fraud Act 2006.
- You understand that poor attendance or progress will lead to withdrawal of the award, and you will send back, all funds received. 100% attendance is required.
- You understand that the information provided in your application, will be seen and processed by the Student Support and Finance team as well as internal and external auditors, including the Welsh Government. You consent to the information provided being checked against your student record for accuracy.
- The Fund is on a first come, first serve basis. Reimbursements may not be processed.

Cronfa Ariannol wrth Gefn: Nodiadau Cyfarwyddyd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Beth yw'r Gronfa Ariannol wrth Gefn?

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi swm o arian i'r Coleg ac mae gan y Coleg ryddid i benderfynu ar sut i wario'r gronfa hon.

Pwy sy'n gymwys?

Bydd unrhyw un sy'n derbyn LCA neu GDLIC yn gymwys i gael cymorth. Mae rhaid i fyfyrwyr astudio am o leiaf 275 awr yn ystod y flwyddyn academaidd. Gall myfyrwyr y mae eu hamgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn wneud cais unrhyw bryd gan nodi ar y ffurflen gais eu bod yn ymgeisio o ganlyniad i galedi.

Sganiwch yma i wneud cais

Pa gymorth sydd ar gael i mi o bosib?

Gofal plant

£41 pob diwrnod o astudio yn y coleg, ar gyfer un plentyn yn unig.

Bwyd

Bydd £4.10 yn cael ei ychwanegu at eich cerdyn adnabod myfyriwr ar gyfer pob diwrnod coleg. Bydd methu â dod â'ch cerdyn adnabod yn golygu bod myfyriwr yn colli'r hawl ar gyfer y diwrnod hwnnw. Bydd angen i fyfyrwyr Canolfan Adeiladu Pontardawe ac Abertawe gasglu gwerth wythnos o docynnau cinio o'r Dderbynfa ar ddydd Llun, i'w defnyddio mewn mannau gwerthu bwyd lleol am yr wythnos, sydd y tu allan i'r Coleg. Os bydd myfyriwr yn colli ei dalebau, ni all hawlio talebau ychwanegol.

Cludiant

Bws

Bydd myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Castell-nedd, Afan, Llandarcy, Canolfan Adeiladwaith Abertawe neu Gampws Pontardawe sy'n byw mwy na **thair** milltir o'r Coleg yn derbyn cerdyn bws i deithio am ddim. Bydd ein myfyrwyr sy'n astudio yn ein campysau Bannau Brycheiniog neu'r Drenewydd, ac sy'n byw mwy na thair milltir i ffwrdd, ond o fewn i Sir Powys, yn derbyn cerdyn bws i deithio am ddim os ydynt rhwng 16 a 18 oed. Bydd myfyrwyr dros 19 oed, sy'n byw mwy na **thair** milltir o gampws Bannau Brycheiniog neu'r Drenewydd yn derbyn ad-daliad gennym hyd at £175 y tymor.

Costau teithio ar y trên a chostau tanwydd

Mae cyfanswm o £175 y tymor ar gael i fyfyrwyr sy'n byw mwy na **thair** milltir o'r campws y maent yn astudio ynddo.

Cyfarpar Cwrs

Ad-daliad llawn ar gyfer cyfarpar sy'n gysylltiedig â'ch cwrs, gall hyn gynnwys dillad diogelu, deunydd ysgrifennu neu lyfrau.

Llety

Yn ystod y tymor yn unig, dydd Llun-dydd Gwener, ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau astudio mewn campws pell ac nad yw'n rhesymol iddynt deithio bob dydd. Os yw'r un cwrs ar gael mewn campws sy'n agosach at gyfeiriad cartref y myfyriwr, ni fydd modd trefnu a thalu am lety.

Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Rhoddir ad-daliad llawn ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer myfyrwyr dros **25 oed** neu ar gyfer myfyrwyr y mae gofyn iddynt gyflawni gwiriad ar gyfer eu cwrs.

Teithiau Gorfodol sy'n rhan o'r Cwrs

Ad-daliad llawn ar gyfer unrhyw deithiau cwrs sy'n hanfodol i'ch astudiaethau.

Rhaid anfon anfonebau i **studentsupport@nptcgroup.ac.uk** yn ystod yr un flwyddyn academaidd er mwyn iddynt gael eu had-dalu. Ni fydd talebau a gyflwynir ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd briodol yn cael eu hystyried.

Taliadau mewn Argyfwng

Gall taliadau gael eu gwneud mewn argyfwng yn achos caledi ond mae rhaid i hyn gael ei asesu gan y Swyddog Myfyrwyr a Gwasanaethau Busnes neu'r Rheolwr Cynorthwyol: Cyllid Myfyrwyr a Gwasanaethau Gweithredol.

Apelio

Dylai unrhyw apeliadau yn erbyn unrhyw geisiadau ar gyfer y gronfa hon gael eu gwneud drwy gysylltu â **studentsupport@nptcgroup.ac.uk**: Ar gyfer sylw'r Rheolwr Cynorthwyol: Cyllid Myfyrwyr a Gwasanaethau Gweithredol.

Telerau ac Amodau

- Ni fydd y dyfarniad yn cael ei ystyried yn swyddogol nes i chi dderbyn eich Llythyr Dyfarnu ym mewnblwch eich cyfrif myfyriwr a'ch mewnblwch personol. Mae hyn yn cynnwys prydau o fwyd am ddim gan y coleg.
- Byddwch yn ad-dalu unrhyw swm yr anfonwyd atoch o ganlyniad i wybodaeth anghywir a ddarparwyd neu os ydych yn gadael y Coleg yn gynnar. Rydych hefyd yn deall y bydd unrhyw ymgais i gael cyllid trwy dwyll yn arwain at gamau disgyblu o dan y Cod Ymddygiad i Fyfyrwyr neu at ddwyn achos o dan y Ddeddf Atal Twyll 2006.
- Rydych yn deall y bydd presenoldeb gwael yn golygu y bydd y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl a byddwch yn anfon yr holl gyllid a dderbyniwyd eisoes yn ei ôl. Mae angen cyfradd presenoldeb o 100%.
- Rydych yn deall bod yr wybodaeth a ddarparir yn eich cais yn cael ei gweld a'i phrosesu gan y tîm Cymorth i Fyfyrwyr a'r tîm Cyllid, yn ogystal ag archwilwyr mewnol ac allanol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Rydych yn rhoi eich caniatâd i'r wybodaeth a ddarparir gael ei gwirio yn erbyn eich cofnod myfyriwr er cywirdeb.
- Mae'r gronfa yn gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin caiff falu. Efallai na fydd ad-daliadau yn cael eu prosesu.